COFNODION CYFARFOD Y CABINET A GYNHALIWYD AR FFURF HYBRID YN NEUADD Y SIAMBR – SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB AR DDYDD MAWRTH, 23 GORFFENNAF 2024, AM 2.30PM

Yn Bresennol

Y Cynghorydd JC Spanswick – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| N Farr | E L P Caparros | M Jones | M J Evans |
| P Davies | | | |

Yn Bresennol o Bell

| | | |
|---|---|---|
| J Gebbie | M Jones | HM Williams |

Ymddiheuriadau am absenoldeb

Dim.

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Kelly Watson | Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, Adnoddau Dynol a Chorfforaethol |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg, y Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc |
| Carys Lord | Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid |
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau |
| Deborah Exton | Dirprwy Bennaeth Cyllid |
| Rachel Keepins | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |
| Robin Davies | Rheolwr Grŵp (Strategaeth, Perfformiad a Chymorth) |
| Oscar Roberts | Prentis Gweinyddu Busnes – Gwasanaethau Democrataidd |

Datganiadau o Fuddiant
Datganodd y Cyng. M Evans fuddiant personol yn eitem 5, fel llywodraethwr ysgol y cyfeirir ati yn yr adroddiad.
Datganodd y Cyng. E L P Caparros fuddiant sy'n rhagfarnu yn eitem 6, gan fod ei briod yn ymwneud ag un o'r cwmnïau dan sylw.
Datganodd y Cyng. M Evans fuddiant sy'n rhagfarnu yn eitem 6, gan eu bod yn rhannu rôl gyda'r Cyng. Caparros sydd â buddiant sy'n rhagfarnu.
Datganodd y Cyng. N Farr fuddiant sy'n rhagfarnu yn eitem 6.
Datganodd y Cyng. M Jones fuddiant sy'n rhagfarnu yn eitem 8, fel aelod o'r ward, cefnogwr i'r clwb, ac fel cefnogwr i gais y clwb.

## 340. Cymeradwyo Cofnodion

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD: Cymeradwyodd y Cabinet gofnodion 16/04/2024 a 14/05/2024 fel cofnodion gwir a chywir. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 23 Gorffennaf 2024 |

## 341. Polisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol 2024

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Cyflwynodd y Rheolwr Grŵp (Strategaeth, Perfformiad a Chymorth) ei adroddiad er mwyn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer y Polisi Iechyd a Diogelwch newydd yn dilyn deddfwriaeth newydd y llywodraeth.<br><br>Gofynnodd yr Aelodau gwestiynau ynghylch yr adroddiad yng nghyswllt y materion a ganlyn:<br>• Effaith gweithredu'r polisi ar staff y Cyngor<br>• Cyfathrebu'r polisi i staff y Cyngor<br>• Y modd y gellir adrodd ac olrhain effeithiolrwydd y polisi<br>• Ymgysylltiad staff a rheolwyr â'r ymgynghoriad a'r gwaith o lunio'r polisi<br><br>PENDERFYNWYD: Cymeradwyodd y Cabinet y Polisi Iechyd a Diogelwch newydd ar gyfer 2024, gan nodi'r rhan a chwaraewyd gan undebau llafur a'r awgrym o ddiwylliant diogelwch cyfunol o fewn y gweithle. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 23 Gorffennaf 2024 |

| | |
|---|---|
| | |

**342. Deilliannau Arolygiadau Estyn o ysgolion ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn ystod Tymor y Gwanwyn 2024**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg, y Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc yr adroddiad hwn, gan grynhoi arolygiadau Estyn yn ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr yn nhymor y gwanwyn, a diolchodd i staff yr holl ysgolion dan sylw am eu gwaith caled tuag at gyflawni'r canlyniadau hyn. Nodwyd yn arbennig yr ysgol y gofynnwyd iddi rannu ei harferion da fel esiampl i ysgolion eraill at ddibenion Estyn.<br><br>Gofynnwyd cwestiynau i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol ynghylch canllawiau a fformat newydd yr arolygiadau, ynghyd ag ynghylch lliniaru ffactorau posibl sy'n peri straen yn sgil y posibilrwydd o ganlyniadau ac adroddiadau negyddol.<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u> Nododd y Cabinet yr adroddiad, gan ddiolch i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol, yr Adran Addysg a'r holl athrawon a staff eraill sy'n gweithio i gyflawni gofynion yr adroddiadau hyn ac unrhyw argymhellion sy'n codi o'r adroddiadau. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 23 Gorffennaf 2024 |

**343. Polisi Teithio gan Ddysgwyr**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Cyflwynodd y Rheolwr Grŵp (Strategaeth, Perfformiad a Chymorth) yr adroddiad hwn ar ddiweddariadau sy'n cael eu gwneud i ofynion i ganiatáu i ddysgwyr deithio i'w hysgol benodedig, yng ngolau pwysau cyllidebol parhaus ar y Cyngor. Yn ogystal â hyn, mae'n cynnwys gwaith craffu newydd ar broblemau posibl o fewn y polisi presennol, ynghyd â'r posibilrwydd o lwybrau cerdded diogel i ddisgyblion, i ganiatáu iddynt ddefnyddio llwybrau presennol yn haws heb yr angen i ddefnyddio trafnidiaeth.<br><br>Derbyniodd y Cyngor adborth hefyd gan y Cyng. Elaine Winstanley a oedd yn cynrychioli'r broses Graffu a gyflawnwyd o ganlyniad i gynigion y polisi, a nodwyd deuddeg o argymhellion, sy'n cynnwys:<br><br>• Eithriadau ar gyfer plant â phrofiad o fod mewn gofal yng ngolau ymrwymiad y Cyngor i gefnogi ei ddysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal. |

| | |
|---|---|
| | • Sicrhau dealltwriaeth lawn o effaith unrhyw newidiadau o safbwynt y goblygiadau o ran presenoldeb.<br>• Cyfathrebu gyda'r holl randdeiliaid sy'n chwarae rhan.<br>• Monitro a chaniatáu adborth ar lwybrau cerdded diogel sydd wedi'u sefydlu i sicrhau mynediad parhaus iddynt.<br>• Y modd y gall plant gael eu trin yn yr ysgol o ganlyniad i'r ffaith eu bod yn cerdded.<br>• Mynd i'r afael ag unrhyw broblemau o ran capasiti o ganlyniad i rai eithriadau yn y polisi.<br>• Cyfathrebu gyda llwybrau bysiau i sicrhau trefniadau diogel a rhwydd o ran trafnidiaeth gyhoeddus.<br>• Gofyn i golegau Pen-y-bont ar Ogwr a Phencoed p'un a oes modd iddynt helpu i gefnogi anghenion teithio dysgwyr.<br>• Sicrhau bod y Cyngor yn parhau i gydymffurfio ag argymhellion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.<br>• Yr effaith ar ddisgyblion sy'n agored i niwed a allai fod mewn mwy o berygl o fod yn NEET.<br>• Unrhyw broblemau gyda lwfansau milltiroedd posibl o ran rhieni.<br>• Sicrhau y caiff y cynllun ei fonitro'n briodol i ganiatáu trosolwg priodol.<br><br>Gofynnodd yr Aelodau gwestiynau ynghylch yr adroddiad yng nghyswllt testunau a oedd yn cynnwys:<br><br>• Manylion yr amodau sy'n ymwneud â dysgwyr y mae'r Polisi'n eu heffeithio ar hyn o bryd.<br>• Unrhyw fesurau lliniaru eraill yng nghyswllt y posibilrwydd o ddileu budd-daliadau.<br>• Achosion posibl sydd ar y cyrion o ran unrhyw fudd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd.<br>• Unrhyw oblygiadau posibl o ran y newid yn yr hinsawdd.<br><br>PENDERFYNWYD: Penderfynodd y Cabinet fwrw ymlaen â Chynigion 1, 2, 3 a 4 gan ddewis gohirio Cynnig 5 – y cynnig i rieni/gofalwyr disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) o ran yr opsiwn i gael 'cyllideb drafnidiaeth bersonol', yn amodol ar ymchwiliadau pellach. Diolchwyd i'r swyddogion dan sylw am lunio'r adroddiad a chydnabuwyd yr angen anffodus i newid y polisi hwn yng ngolau sefyllfa ariannol y Cyngor, yn ogystal â phryderon a godwyd gan breswylwyr ynghylch sawl argymhelliad yn yr adroddiad. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 23 Gorffennaf 2024 |

344. **Gwasanaethau Gwastraff – Cynllun Treigl Disodli'r Fflyd**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg, y Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc yr adroddiad hwn yn dilyn penderfyniad y Cabinet i gymeradwyo cynllun treigl ar gyfer disodli fflyd ailgylchu'r Cyngor a buddsoddiadau a wnaed yn y gorffennol a rhai at y dyfodol o dan y canllawiau dan sylw. Roedd yr adroddiad yn manylu ar Bŵer Dirprwyedig a oedd yn costio £980,000 a wariwyd ym mis Mehefin cyn y cyfarfod, oherwydd gofynion y contract a chyfyngiadau'r penderfyniadau a ganiatawyd yn ystod y cyfnod cyn yr etholiad. Roedd y symiau ariannol yn cynnwys cost o £56,000 ar gyfer camerâu a chynllun lliwiau, a chostau adnewyddu o tua £90,000, a ddaeth i gyfanswm o £1,126,000.<br><br>Gofynnodd yr Aelodau gwestiynau ynghylch testunau a oedd yn cynnwys:<br>• Rhagor o newidiadau posibl o ran costau.<br>• Y posibilrwydd o anghytundeb o du'r Cyngor yng nghyswllt cymeradwyo'r gyllideb.<br>• P'un a archwiliwyd pob posibilrwydd i sicrhau gwerth am arian.<br>• P'un a ellid adnewyddu rhagor o gerbydau yn hytrach na bod angen eu disodli.<br><br>Nodwyd, os na fyddai'r Cyngor yn cymeradwyo adroddiad y Rhaglen Gyfalaf, na fyddai'r swm a oedd ar gael i brynu ac adnewyddu'r cerbydau hyn ond yn ddigon ar gyfer pedwar neu bump o'r cerbydau oherwydd y cyfyngiadau o ran y costau. Mae hyn yn ffurfio rhan bresennol o'r Rhaglen Gyfalaf sydd wedi'i dynodi ar gyfer Rheoli'r Fflyd.<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u> Yn amodol ar gymeradwyaeth y Cyngor ar 24ain Gorffennaf 2024, rhoddodd y Cabinet ei gymeradwyaeth i gyflwyno dwy archeb newydd i Plan B Management Solutions a fyddai'n cynnwys prynu pum cerbyd ailgylchu newydd ac adnewyddu tri cherbyd presennol.<br>Roedd y Cabinet hefyd y dirprwyo awdurdod i negodi unrhyw ddiwygiadau i gontract presennol y Gwasanaethau Gwastraff gyda Plan B i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau, mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog Cyllid, Tai a Newid a'r Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 23 Gorffennaf 2024 |

345. **Trosglwyddo Asedau Cymunedol Pafiliwn a Chaeau Chwarae Llangeinwyr i CPD Llangeinwyr**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg, y Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc yr adroddiad hwn |

<table>
<tr><td></td><td>a oedd yn manylu ar grant ariannol arfaethedig i CPD Llangeinwyr i adeiladu pafiliwn newydd, yn ogystal â phrynu offer i gynnal eu heiddo presennol. Mae hyn yn mynd ochr yn ochr â phrydles 35 blwyddyn. Nodwyd bod Trosglwyddiad Ased Cymunedol (TAC) yn arwain at gost sylweddol o ran cyllideb gyffredinol y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer y maes hwn, ac felly y dylid ei ystyried yn ofalus.<br><br>Gofynnodd yr Aelodau gwestiynau er mwyn cael eglurhad pellach, gan gynnwys ynghylch:<br>• Y gost i'r Cyngor godi Pafiliwn cwbl newydd yn fewnol, yn hytrach na defnyddio cyllid arall.<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u> Cymeradwyodd y Cabinet:<br><br>1. Gynlluniau busnes ac ariannol a gyflwynwyd gan Llangeinor Football Ltd i gefnogi prydlesu'r Pafiliwn, y cael pêl-droed, mannau gwyrdd eraill a'r maes parcio yng Nghaeau Chwarae Llangeinwyr;<br>2. Cais am gyllid a gyflwynwyd o dan gronfa TAC ar gyfer prynu Offer Cynnal a Chadw ar gyfer y Cae, sy'n dod i gyfanswm o £10,000; a'r<br>3. Cais am gyllid a gyflwynwyd o dan y gronfa TAC ar gyfer dymchwel a chodi pafiliwn newydd sy'n dod i gyfanswm o £150,000, ac a fyddai'n golygu y byddai'r pecyn cyllido llawn ar gyfer y trosglwyddiad o dan y Gronfa TAC yn dod i gyfanswm o £160,000.<br><br>Nododd y Cabinet yr angen i adolygu adroddiadau'r Trosglwyddiadau Asedau Cymunedol pan fyddant yn cael eu cyflwyno'n ôl i'r Cabinet, ynghyd â'r angen am system geisiadau gadarn ar gyfer sefydliadau eraill sydd â diddordeb. Roeddynt hefyd yn nodi llwyddiant y TAC o ran defnyddio adnoddau eraill y Cyngor i ddenu rhagor o fuddsoddiad yng nghymunedau Pen-y-bont ar Ogwr o ffynonellau eraill, fel arian cyfatebol er enghraifft.</td></tr>
<tr><td>Dyddiad y Penderfyniad</td><td>23 Gorffennaf 2024</td></tr>
</table>

**346. Gwasanaeth Cymorth Arbenigol Plant sy'n Derbyn Gofal (CLASS)**

<table>
<tr><td>Penderfyniad</td><td>Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yr adroddiad hwn sy'n nodi bwriad y Cyngor i lunio cytundeb ar y cyd â CBS Rhondda Cynon Taf a CBS Merthyr Tudful i greu gwasanaeth cymorth arbenigol ar gyfer plant â phrofiad o fod mewn gofal.<br><br>Holodd yr Aelodau ynghylch y posibilrwydd o gael arian cyfatebol yn y dyfodol, ac ynghylch pryd y byddai angen y cyllid hwnnw efallai.</td></tr>
</table>

<table>
<tr><td></td><td>PENDERFYNWYD: Cytunodd y Cabinet i:<ul><li>Lunio cytundeb cydweithio rhanbarthol gyda CBS Rhondda Cynon Taf a CBS Merthyr Tudful ar gyfer darparu CLASS;</li><li>Dirprwyo awdurdod ar gyfer cytuno amodau'r cytundeb cydweithio rhanbarthol ac unrhyw gytundebau ategol a threfnu i gyflawni'r cytundebau hynny ar ran y Cyngor gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.</li><li>Hepgor Rheol Trefniadaeth Cytundeb 3.2.12 i CBS Rhondda Cynon Taf gaffael CLASS, gan gynnwys llunio contract ar ran y Cyngor. Nododd y Cabinet hefyd y ceisir cymeradwyaeth i ddyfarnu unrhyw gytundeb trwy Gynllun Dirprwyo'r Cyngor, yn dilyn casgliad y broses gaffael a gwerthuso;</li><li>Dirprwyo awdurdod ar gyfer cyflwyno sylwadau a phenderfyniadau yng nghyswllt y Bwrdd Prosiect Rhanbarthol i'r Pennaeth Gofal Cymdeithasol Plant.</li></ul><br>Nododd y Cabinet hefyd eu bod yn croesawu'r duedd sydd i'w gweld ar i lawr o ran symud lleoliadau ymhlith plant sy'n derbyn gofal ym Mhen-y-bont ar Ogwr.</td></tr>
<tr><td>Dyddiad y Penderfyniad</td><td>23 Gorffennaf 2024</td></tr>
</table>

**347. Polisi Cludiant â Chymorth**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yr adroddiad hwn ar yr angen am Bolisi Cludiant â Chymorth i gynorthwyo'r rheiny ym Mhen-y-bont ar Ogwr sydd ag anghenion o ran gofal a chymorth. Cynhelir ymgynghoriad cyhoeddus yng nghyswllt y polisi hwn.<br><br>Croesawodd y dirprwy arweinydd yr adroddiad, a dywedodd ei fod yn bwysig sicrhau bod pawb yn cael derbyn y cymorth y mae ei angen arnynt i ganiatáu iddynt gael mwynhau bywyd i'r eithaf, ac roedd y polisi hwn yn darparu'r cymorth hwnnw.<br><br>PENDERFYNWYD: Rhoddodd y Cabinet ei gymeradwyaeth i ddechrau ymgynghoriad cyhoeddus ar y Polisi Cludiant â Chymorth, a gaiff ei adrodd yn ôl i'r cabinet ar gyfer ei gymeradwyo a'i weithredu. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 23 Gorffennaf 2024 |

## 348. Polisi Cefnogi Unigolion i Reoli Arian

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yr adroddiad hwn sy’n nodi’r gofyniad nad oedd wedi’i gyflawni’n flaenorol gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr o ran ymgorffori’r polisi hwn o fewn pob gwasanaeth gofal uniongyrchol.<br><br>Gofynnodd yr Aelodau gwestiynau ynghylch y testunau a ganlyn:<br>• P’un a oes gan unigolion, y mae eu materion ariannol yn cael eu rheoli, Asesiad Galluedd cadarn.<br>• P’un a yw unrhyw angen i reoli arian yn dod o dan gynlluniau gofal unigolion.<br>• Y modd y defnyddir cyllid wrth gymryd camau i ddarparu rhagor o gymorth i unigolion, a fydd o bosibl yn cynnwys gweithio yn yr hwb.<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u> Cymeradwyodd y Cabinet y Polisi Cefnogi Unigolion i Reoli Arian, gan nodi pwysigrwydd cael cynlluniau ar waith i rymuso unigolion i wneud penderfyniadau ynghylch eu harian os ydynt yn colli galluedd mewn unrhyw fodd. Nododd y Cabinet hefyd y cytundeb o ran cyllid at y dyfodol gan Lywodraeth Cymru i barhau i gefnogi’r sector tai ac unigolion sydd mewn perygl o fod yn ddigartref ym Mhen-y-bont ar Ogwr. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 23 Gorffennaf 2024 |

## 349. Cynnydd Grant Cymorth Tai

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Cyflwynodd y Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid yr adroddiad hwn sy’n ymwneud â chyllid a ddyrannwyd i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr gan Lywodraeth Cymru i gefnogi darparwyr i ddarparu’r cyflog byw gwirioneddol, ynghyd â’r sector yn fwy cyffredinol i barhau i ddarparu eu gwasanaethau.<br><br>Gofynnodd yr Aelodau gwestiynau, gan gynnwys rhai yng nghyswllt:<br>• Dyrannu a gwario unrhyw gyllid nas defnyddiwyd.<br>• Y modd y gwneir y penderfyniadau hyn o ran gwariant ychwanegol.<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u><br>Nododd y Cabinet yr adroddiad, gan roi ei gymeradwyaeth i addasu’r contract o dan Reolau Trefniadaeth Cytundeb 3.3.3 a 3.3.6 i sicrhau y gall darparwyr a gomisiynwyd fynd i'r afael â phwysau o ran cyflogau, ac nad yw unrhyw gytundebau a ariennir gan y Grant Cymorth Tai mewn diffyg. |

| | |
|---|---|
| | Dirprwywyd awdurdod i'r Pennaeth Partneriaethau a Thai mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog Cyllid, Tai a Newid a'r Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol i negodi telerau a threfnu i gyflawni dogfennaeth briodol ar gyfer addasu'r cytundebau hyn.<br><br>Nododd y Cabinet hefyd y caiff gweddill yr addasiadau i'r cytundeb eu cymeradwyo yn unol â Chynllun Dirprwyo'r Cyngor. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 23 Gorffennaf 2024 |

**350. Alldro Rhaglen Gyfalaf 2023-24**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Cyflwynodd y Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid yr adroddiad hwn a roddodd ddiweddariad ar alldro cyllideb y Cyngor o £342,000,000, a arweiniodd at orwariant net y llynedd o £7,054,000 gan gynnwys gorwariant cyllideb y Gyfarwyddiaeth o £13,800,000 a gorwariant net cyllidebau ledled y Cyngor o £5,270,000. Mae o hefyd yn cynnwys trosolwg o gronfeydd wrth gefn sydd wedi'u clustnodi a welodd gyfanswm cyffredinol o £12,100,000 yn cael ei dynnu i lawr, ac nid oedd modd creu unrhyw gronfeydd newydd wrth gefn sydd wedi'u clustnodi am y tro cyntaf yn hanes y Cyngor.<br><br>Gofynnodd yr Aelodau gwestiwn ynghylch pa fesurau y mae angen eu hystyried i helpu i wella'r sefyllfa ariannol hon wrth symud ymlaen.<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u> Nododd y Cabinet y sefyllfa ar gyfer 2023-34 o ran yr alldro refeniw, gan nodi hefyd y newid o ran y ddemograffeg oedran yn y DU i boblogaeth sy'n heneiddio, yn ogystal â chyfraddau geni sy'n gostwng. Nodwyd cynnydd hefyd mewn digartrefedd, sydd wedi arwain at ragor o ymrwymiadau o ran y Cyngor i breswylwyr, sy'n golygu bod y Grant Cynnal Refeniw a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru'n annigonol i ddiwallu rhai anghenion. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 23 Gorffennaf 2024 |

**351. Monitro'r Gyllideb 2024-25 – Rhagolwg Refeniw Chwarter 1**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Cyflwynodd y Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid yr adroddiad hwn a oedd yn amlinellu sefyllfa ariannol bresennol y Cyngor ar ddiwedd Mehefin 2024, o gyllideb o £360,600,000. Gorwariant rhagamcanol y Cyngor yw £9,200,000 sy'n cynnwys gorwariant net o fewn y Gyfarwyddiaeth o £11,000,000 a thanwariant net o £1,900,000 o ran cyllidebau ledled y cyngor. Mae'r meysydd sy'n dan bwysau mawr yn cynnwys y gwasanaethau cymdeithasol, cludiant o'r cartref i'r ysgol, tai a digartrefedd a gwasanaethau cyfreithiol.<br><br>PENDERFYNWYD: Nododd y Cabinet y sefyllfa ragamcanol ar ddiwedd y flwyddyn o ran refeniw ar gyfer 2024-25. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 23 Gorffennaf 2024 |

**352. Alldro Rhaglen Gyfalaf 2023-24 a Diweddariad Chwarter 1 2024-25**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Cyflwynodd y Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid yr adroddiad hwn ar sefyllfa'r Cyngor o ran Alldro'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer y flwyddyn ariannol ddiwethaf a chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol hon. Cyllideb y llynedd, yn ôl hynny a gymeradwywyd gan y Cabinet, oedd £49,900,000 o amrywiaeth eang o wahanol ffynonellau, a oedd yn dod i gyfanswm o £51,800,000, y gwariwyd £38,000,000 ohoni'r llynedd sydd, ynghyd â llithriant a ffactorau eraill, wedi arwain at danwariant o £35,000.<br><br>Gofynnodd yr Aelodau gwestiynau ynghylch:<br>• Manylion buddsoddiad Cyfalaf yn Cymoedd i'r Arfordir (V2C)<br>• Rhagor o wybodaeth am y llog a gynhyrchwyd o gronfeydd.<br><br>PENDERFYNWYD: Nododd y Cabinet Alldro Rhaglen Gyfalaf 2023-24 a Diweddariad Chwarter 1 2024-25 hyd at 30 Mehefin 2024, yn ogystal â chytuno i gyflwyno'r Rhaglen Gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer ei chymeradwyo gan y Cyngor. Nododd y Pwyllgor hefyd y Dangosyddion Darbodus rhagamcanol a Dangosyddion Eraill ar gyfer 2024-25. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 23 Gorffennaf 2024 |

**353. Adroddiad Alldro Rheoli'r Trysorlys 2023-24**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Cyflwynodd y Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid yr adroddiad hwn a oedd yn darparu trosolwg o reolaeth |

| | |
|---|---|
| | y trysorlys a llif arian dros y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Darparodd y swyddog hefyd amryw ddarnau o gyd-destun i amlinellu'r sefyllfa ariannol ehangach yng nghyswllt y rhifau hyn. Cyfanswm benthyciadau allanol y Cyngor dros y flwyddyn ariannol ddiwethaf oedd £104,600,000, yr oedd £99,600,000 yn fenthyciadau hirdymor ar gyfradd llog cyfartalog o 4.7%. Yn y cyfamser, gwnaed cyfanswm o £50,000,000 mewn buddsoddiadau ar gyfradd llog cyfartalog o 5.02%.<br><br>Gofynnodd yr Aelodau gwestiynau yn ymwneud â:<br>• Pha fesurau a roddwyd ar waith i sicrhau y gwneir buddsoddiadau'n briodol ac yn unol ag amcanion ehangach.<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u> Nododd y Cabinet weithgareddau rheoli'r trysorlys ar gyfer y flwyddyn 1 Ebrill 2023 i 31 Mawrth 2024, yn ogystal â Dangosyddion Rheoli'r Trysorlys yn erbyn y rheini a gymeradwywyd yn Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2023-24. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 23 Gorffennaf 2024 |

**354. Rheoli'r Trysorlys Chwarter 1 2024-25**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Cyflwynodd y Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid yr adroddiad hwn a oedd yn amlinellu chwarter cyntaf rheoli'r trysorlys ar gyfer y flwyddyn ariannol hon, nodwyd gostyngiad pellach o ran chwyddiant a chyfradd llog sefydlog parhaus fel cyd-destun ehangach. Mae dyled hirdymor o £99,580,000 yn parhau ac mae'r ddyled tymor byr o £5,000,000 wedi'i ad-dalu. Yn y cyfamser, mae gan y Cyngor werth £53,350,000 o fuddsoddiadau, a chanddynt log cyfartalog o 5.19%.<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u> Nododd y Cabinet weithgareddau rheoli'r trysorlys ar gyfer y chwarter hyd at 30 Mehefin 2024, yn ogystal â Dangosyddion Rheoli'r Trysorlys ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2024 i 30 Mehefin 2024 yn erbyn y rheiny a gymeradwywyd yn Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2024-25. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 23 Gorffennaf 2024 |

**355. Cynrychiolaeth ar Gyrff Allanol, Cyd-bwyllgorau a Phwyllgorau'r Cabinet**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Cyflwynodd y Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, Adnoddau Dynol a Chorfforaethol yr adroddiad hwn a oedd yn amlinellu aelodaeth â chyrff eraill y mae'n ofynnol i'r Cyngor benodi aelodau ar eu cyfer.<br><br>PENDERFYNWYD: Penododd y Cabinet y nifer a fynnwyd o Aelodau i'r Cyd-bwyllgorau, Pwyllgorau'r Cabinet a chyrff allanol eraill. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 23 Gorffennaf 2024 |

## 356. Blaenraglenni Gwaith y Cabinet, y Cyngor a Phwyllgorau Trosolwg a Chraffu

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Cyflwynodd y Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, Adnoddau Dynol a Chorfforaethol yr adroddiad hwn a oedd yn adolygu'r eitemau i'w cynnwys yn y Blaenraglenni Gwaith o'r 1af Gorffennaf 2024 i'r 31ain Hydref 2024.<br><br>PENDERFYNWYD: Cymeradwyodd y Cabinet Flaenraglen Waith y Cabinet ar gyfer y cyfnod 11 Gorffennaf 2024 i 31 Hydref 2024, a nodwyd Blaenraglenni Gwaith y Cyngor a'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ar gyfer yr un cyfnod. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 23 Gorffennaf 2024 |

## 357. Eitemau Brys

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Dim. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 23 Gorffennaf 2024 |

Er mwyn edrych ar y drafodaeth bellach a gafwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch y ddolen hon.

Daeth y cyfarfod i ben am 18:18.